OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2015 Rhif 655 (Cy. 52)

2015 No. 655 (W. 52)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

RATING AND VALUATION, WALES

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu, a ddyroddir gan awdurdodau bilio (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref) yng Nghymru, ac ar gyfer yr wybodaeth sydd i'w rhoi pan fyddant yn cyflwyno hysbysiadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau 1993 drwy roi cyfeiriadau at Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 yn lle cyfeiriadau at Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag ardrethi sy'n daladwy ar ôl 31 Mawrth 2015.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993 ("the 1993 Regulations") provide for the contents of rate demand notices, which are issued by billing authorities (county councils and county borough councils) in Wales, and for the information to be supplied when such notices are served by them.

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the 1993 Regulations by replacing references to the Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2008 with references to the Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2015.

These Regulations apply in relation to rates payable after 31 March 2015.

2015 Rhif 655 (Cy. 52)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gwnaed	*9 Mawrth 2015*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*11 Mawrth 2015*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62 a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol(**1**)1988 a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 iddi ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2015.

(**1**) 1988 p. 41. Amnewidiwyd paragraff 2(2)(g) i (ge) i Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) ac Atodlen 5 iddi. Mewnosodwyd paragraff 2(2)(gf) i Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 8(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (c. 17).

(**2**) 1993 p. 38.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

2015 No. 655 (W. 52)

RATING AND VALUATION, WALES

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2015

Made	*9 March 2015*
Laid before the National Assembly for Wales	*11 March 2015*
Coming into force	*1 April 2015*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 62 and 146(6) of, and paragraphs 1 and 2(2) of Schedule 9 to, the Local Government Finance Act 1988(**1**) and section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**) and now vested in the Welsh Ministers(**3**), make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2015.

(**1**) 1988 c. 41. Paragraph 2(2)(g) to (ge) of Schedule 9 to the Local Government Finance Act 1988 was substituted by section 139 and Schedule 5 to the Local Government and Housing Act 1989 (c. 42). Paragraph 2(2)(gf) of Schedule 9 to the Local Government Finance Act 1988 was inserted by section 8(2) of the Local Government Finance Act 2012 (c. 17).

(**2**) 1993 c. 38.

(**3**) The powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* the reference to the Local Government Finance Act 1988 in Schedule 1. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

2.—(1) Mae Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 i'r Atodlen, ar ôl yr adran "Small Business Rate Relief", yn lle "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2008" rhodder "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2015"

(3) Ym mharagraff 1 o Ran 2 i'r Atodlen ar ôl yr adran "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach", yn lle "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008" rhodder "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015".

Amendment to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993

2.—(1) Schedule 2 to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993(**1**) is amended as follows.

(2) In paragraph 1 of Part 1 of the Schedule after the section headed "Small Business Rate Relief", for "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2008" substitute "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2015"

(3) In paragraph 1 of Part 2 of the Schedule after the section headed "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach", for "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008" substitute "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015".

Leighton Andrews

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

9 Mawrth 2015

Minister for Public Services, one of the Welsh Ministers

9 March 2015

©℗Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 1993/252, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy. 30), 2003/414 (Cy. 59), 2005/256 (Cy. 22), 2006/3392 (Cy. 311), 2007/3399 (Cy. 303), 2008/7 (Cy. 3), 2008/3075 (Cy. 269), 2010/271 (Cy. 34), 2010/2582 (Cy. 216), 2012/466 (Cy. 77) a 2012/467 (Cy. 78).

(**1**) S.I. 1993/252, amended by S.I. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (W. 30), 2003/414 (W. 59), 2005/256 (W. 22), 2006/3392 (W. 311), 2007/3399 (W. 303), 2008/7 (W. 3), 2008/3075 (W. 269), 2010/271 (W. 34), 2010/2582 (W. 216), 2012/466 (W. 77) and 2012/467 (W. 78).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2015 Rhif 655 (Cy. 52)

2015 No. 655 (W. 52)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

RATING AND VALUATION, WALES

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11059-3

9 780348 110593

£4.25

W2250/03/15 ON